



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

28 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Ar 18 Ionawr 2022, cynhaliwyd dadl yn y Senedd a phleidleisiwyd ar ddau gynnis cydsyniad deddfwriaethol ar wahân mewn perthynas â Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (y Bil). Roedd y Senedd yn cefnogi safbwynt Llywodraeth Cymru a chafodd Cynnig 1 ei dderbyn a Chynnig 2 ei wrthod.

Yn ystod y ddadl, cyfeiriais at y gwelliant, nad oedd yn welliant gan y llywodraeth, y cytunwyd arno yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 17 Ionawr, i wneud casineb at fenywod yn drosedd casineb a dywedais y byddwn yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol maes o law.

Fy mwriad oedd gosod Memorandwm Atodol ynghylch y gwelliant hwn a chynnal dadl fer arno yn y Senedd ar 25 Ionawr. Fodd bynnag, cafodd y Bil ei Drydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Ionawr a bydd y camau terfynol o ystyried gwelliannau ('Ping Pong') yn dechrau cyn hir. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n debygol y bydd gwelliannau y cytunwyd arnynt yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cael eu gwrthdroi ac y gwneir gwelliannau pellach.

O ystyried bod amseroedd ansicr ac anrhagweladwy o'n blaenau o ran amserlenni a phrosesau'r Bil gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU, rwyf wedi penderfynu peidio â gosod Memorandwm Atodol ynghylch y gwelliant casineb at fenywod am y tro. Unwaith y bydd sicrwydd ynghylch y Bil, a bod y canlyniadau ar lefel y DU yn glir, byddaf yn cymryd camau priodol i ymateb i unrhyw welliannau pellach a wneir.

Bydd fy swyddogion yn parhau i gyd-drafod y Bil â Llywodraeth y DU a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi fel y bo'n briodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon at, Jenny Rathbone AS, Gadeirydd y Pwyllgor
Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a holl Aelodau'r Senedd.

Yr eiddoch,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters of "Jane".

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol